ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

# Gwobrau 2015

## Enillwyr

Prif noddwyr

NetworkRail

COSTAIN

AB electrification

# Prif noddwyr

Heb ymgeiswyr am Wobrau CEW ni fyddai cyfle i ddathlu rhagoriaeth y sector adeiladu yng Nghymru. Ac heb noddwyr, ni fyddai digwyddiad dathlu na pharti na chyfle i arddangos talentau'r diwydiant! Rydym yn hynod ddiolchgar, felly, am gefnogaeth Network Rail, Costain ac ABC Electrification. Maent oll yn rhoi cefnogaeth wych i Gymru, ei chadwyn gyflenwi a'r egwyddorion arferion gorau sy'n cael eu hyrwyddo gan CEW a'r diwydiant ehangach. Diolch o galon ichi am eich ymrwymiad ac am fod yn brif noddwyr Gwobrau CEW 2015.

I'r tri chwmni, mae cydweithredu yn rhan naturiol o'n ffordd o weithio – mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid, ein pobl ein hunain, busnesau a chyflenwyr, ein cymdogion a'r amgylchedd naturiol. Lle bynnag y byddwn yn gweithio, rydym yn creu etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ran sgiliau, gwybodaeth, dyhead a gwell amgylchedd.

**Network Rail** sydd piau ac sy'n rhedeg rhwydwaith rheilffyrdd Prydain, gan roi mynediad i'r traciau i'r cwmnïau sy'n rhedeg y trenau. Mae'n cynnal a datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd, yn cynnwys gorsafoedd, traciau, signalau a chroesfannau. Mae hefyd yn cynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol. Nid yw'r cwmni'n talu difidend i gyfranddalwyr, felly caiff yr holl elw ei ail fuddsoddi er mwyn gwella'r rheilffyrdd. Gan fod mwy o bobl nag erioed am ddefnyddio'r rheilffyrdd mae Network Rail yn gwneud y buddsoddiad mwyaf yn rheilffyrdd Cymru ers oes Fictoria, yn cynnwys trydaneiddio Prif Linell De Cymru. Bydd trydaneiddio'r llwybr allweddol hwn yn golygu siwrneiau cyflymach, gwyrddach, tawelach a mwy dibynadwy i ddegau o filoedd o deithwyr.

**Costain** yw un o brif gwmnïau peirianneg y Deyrnas Unedig. Mae'n gweithio yn y meysydd ynni, dŵr a chludiant. Gall y cwmni fod yn falch iawn o'i record yng Nghymru, yn cynnwys Ffordd Liniaru'r Porth, Ffordd Osgoi Gartholwg a Ffordd yr Harbwr Aberafan. Mae ar hyn o bryd yn gweithio ar Gyfnod 2 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a rhannau cyntaf Ffordd Liniaru'r M4 yng Nghasnewydd. Derbyniodd Costain sawl gwobr CEW dros y blynyddoedd, yn cynnwys Gwobr "Y Gorau o'r Gorau yn y Deyrnas Unedig" ar gyfer Ffordd Liniaru'r Porth yn 2007.

Ffurfiwyd **ABC Electrification** gan Alstom, Babcock a Costain i weithio mewn partneriaeth ar raglen Network Rail o drydaneiddio rheilffyrdd y Deyrnas Unedig. Mae ABC ar hyn o bryd yn gweithio ar brif reilffordd Arfordir y Gorllewin, rheilffordd Llundain i'r Gogledd Orllewin, rheilffordd Caeredin i Glasgow a dwy ran o gynllun trydaneiddio Rheilffordd y Great Western – o Swindon i Abertawe. Penodwyd ABC hefyd yn gontractwr cynllun trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd.

Rydym yn falch iawn o fod yn brif noddwyr Gwobrau CEW 2015.

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
2nd Floor East
Longcross Court
47 Newport Road
Cardiff
CF24 0AD

T: 029 2049 3322
Ff: 029 2049 3233
E: info@cewales.org.uk
www.cewales.org.uk

@CEWales
Constructing Excellence in Wales
CEinWales

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

design@cheekymonkeycreative.co.uk
Argraffwyd ar Cocoon offset - papur eildro100%



# Cyflwyniad



Mae Cymru ar y blaen yn y maes adeiladu yng ngwledydd Prydain. Mae'r dystiolaeth i'w gweld yma yn y llyfryn hwn gan fod pob enillydd a sefydliad neu brosiect sydd wedi cael canmoliaeth uchel nid yn unig wedi cyflwyno cynllun o bwys ond wedi gwneud hynny mewn ffordd sy'n gosod esiampl i eraill.

Mae'r awydd amlwg i greu amgylchedd adeiledig yng Nghymru sy'n bwrpasol, yn edrych yn dda, yn gynaliadwy ac yn rhoi budd i bawb sy'n gysylltiedig wedi ei ddangos yng ngwaith pob un o ymgeiswyr Gwobrau CEW ac yn cael ei hybu gan yr enillwyr. Diolch i bawb wnaeth ymgeisio a'r timau sy'n gefn iddyn nhw. Mae pawb oedd ynghlwm wrth yr amrywiol gynlluniau, prosiectau neu gynlluniau busnes yn byw'r gwerthoedd craidd mewn arferion gorau a hyrwyddir gan y Llywodraeth a CEW ac sydd yna'n cael eu hyrwyddo drwy'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Yn CEW rydyn ni'n gweld tystiolaeth o hyn, nid yn unig yn y manylder a ddangoswyd yn y ceisiadau, ond yn yr adborth a gawn bob dydd a'r ffeithiau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith ymchwil, ein gweithdai a'n trafodaethau gyda'r Llywodraeth.

Y gyfrinach nawr yw sicrhau nad yw'r enghreifftiau gwych yma o'r arferion gorau yn aros yn y ddogfen hon neu ar wefan, ond ein bod ni'n siarad amdanyn nhw ac yn eu rhannu wrth i bob un ohonon ni gwrdd â'n cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ehangach. Os yw gwaith CEW i lwyddo, a'r diwydiant adeiladu ehangach i elwa, rhaid i ni gyd hyrwyddo'r dystiolaeth a geir yma sy'n dangos mai drwy gydweithio, cynnig arweiniad cryf a chymryd agwedd holistig tuag at adeiladu y gallwn fwrw mlaen ar y trywydd iawn.

Y maes adeiladu yw hwylusydd mawr economi Cymru. Os gwnawn ni ein gwaith yn iawn bydd Cymru gyfan yn elwa. Mae'r enillwyr yma'n gosod patrwm i eraill yn ein diwydiant ei ddilyn – awn ati i barhau i rannu eu harferion da.

Richard Wilson
Cadeirydd, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

# Beirniaid y Gwobrau

**Mark Adams**
Ymgynghorydd, MDA4 Consultancy Ltd

**David Benson**
Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Cath Bone**
Rheolwr Iechyd a Diogelwch, Lee Wakemans

**Derek Downer**
Ymgynghorydd

**Mike Edmonds**
Ymgynghorydd, Altmore Partnership Ltd

**John Edwards**
Ymgynghorydd, Edwards Hart Consultants

**Andrew Gibson**
Cyfarwyddwr Cyswllt, DTZ

**Chris Gray**
Rheolwr Gyfarwyddwr, C D Gray & Associates

**Vince Hanly**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Rhodri – Gwynn Jones**
Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd, CECA Cymru Cyf

**Keith Jones**
Cyfarwyddwr, ICE Cymru

**Colin King**
Cyfarwyddwr Cyswllt, BRE Cymru a De Orllewin Lloegr

**Ffion Lanchbury**
Pensaer, Rio Architects Ltd

**Simon Lander**
Partner, ChandlerKBS

**Paul Lavelle**
Cyfarwyddwr Cyswllt, Faithful & Gould

**Tony Norris**
Partner, Geldards LLP

**Geoff Ogden**
Cyfarwyddwr, Atkins

**Rob Pannell**
Rheolwr Gyfarwyddwr, Zero Carbon Hub

**Ioan Prydderch**
Partner, Hugh James

**Stella Saunders**
Rheolaeth Adeiladu, Cyngor Dinas Caerdydd

**Andy Sutton**
Cyfarwyddwr Cyswllt, BRE Cymru a De Orllewin Lloegr

**Andrew Thomas**
Cyfarwyddwr, Diligentia Global Ltd

**Jane Wade**
Rheolwr Gweithredu (Eiddo), Cyngor Bro Morgannwg

**Pierre Wassenaar**
Cyfarwyddwr Adran, Stride Treglown

**Andrew Wedlake**
Rheolwr Gweithredu, Galliford Try Infrastructure Ltd

# Gwobr Integreiddio a Chydweithio

Gwobr wedi'i noddi gan HUGH JAMES *expert legal advice*

Beirniaid: Derek Downer, Mike Edmonds, Simon Lander, Andrew Thomas

## Cymuned Ddysgu Penarth, Leadbitter - cwmni Bouygues UK

Mae'r prosiect trawiadol yma hefyd wedi ennill gwobr Prosiect y Flwyddyn, yn rhannol oherwydd yr ymrwymiad a ddangosodd y tîm cyfan wrth godi'r ganolfan addysg gymunedol newydd hon sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.




Cafodd y dasg gymhleth o gyfuno tair ysgol anghenion arbennig ac ysgol uwchradd ar un safle ei chyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb, yn bennaf am fod yna ethos o gydweithio a pharodrwydd i rannu gwybodaeth. Cafodd yr holl becynnau gwaith eu hadolygu gyda'i gilydd gan sicrhau fod yna reolaeth dynn ar y costau, ac fe gyfranogodd pawb yn y gweithdrefnau cymeradwyo dilyniannol , gan sicrhau fod yr 800 o feysydd unigol yn rhydd o broblemau pan gafodd y prosiect ei gwblhau.

Roedd y beirniaid wedi eu taro hefyd gan yr ymdrechion brwdfrydig i gynnwys yr ysgolion a'r gymuned ehangach. Cafwyd dros 9,300 o gysylltiadau gyda disgyblion, a chyfrannwyd dros 450 o oriau i brosiectau ysgol. Penodwyd llysgenhadon i'r prosiect o bob un o'r bedair ysgol wreiddiol i wneud yn siŵr fod pob disgybl yn rhan o'r broses. Cadarnhaodd pennaeth yr ysgol addysg arbennig newydd fod y rhanddeiliaid addysgol wedi cael eu trin fel partneriaid cyfartal. Roedd y strategaeth recriwtio a hyfforddi yn arbennig o uchelgeisiol, yn anelu at 80 o wythnosau gweithwyr newydd i bob £1 miliwn gafodd ei wario. Gan fod y tîm wedi llwyddo i feithrin perthynas gref gydag asiantaethau eraill, rhagorwyd ar y nod hwn o 25 y cant. Rhoddodd y prosiect gyfleoedd gwerth chweil i 184 o bobl oedd yn ddi-waith cyn hynny ac 83 o brentisiaid a gweithwyr dan hyfforddiant, ynghyd â phrofiad gwaith i ddisgyblion o'r ysgolion dan sylw. Cafodd cymaint ag 83 y cant o gyllideb £39 miliwn y prosiect ei wario yng Nghymru a chafodd 1,422 o bobl eu cyflogi o fewn radiws o 25 milltir. Yng ngwir ysbryd cydweithio, mae'r contractwr wedi rhannu'r hyn mae wedi'i ddysgu gyda'r diwydiant ehangach gyda'r nod o wella'r broses adeiladu ysgolion newydd.



AECOM ARUP BOUYGUES UK HLM VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG



# Busnes Bach a Chanolig y Flwyddyn

Gwobr wedi'i noddi gan Adeiladu Arbenigrwydd / Constructing Excellence

Beirniaid: Keith Jones, Jane Wade, Andrew Wedlake

## Thomas CMS (Holdings) Ltd
### (Enillydd y categori 1-50 o weithwyr)

Mae ar y diwydiant adeiladu yng Nghymru angen pobl sy'n fodlon dweud eu dweud ac arwain y gwaith o hybu cynnydd a'r arferion gorau.







Cafodd Thomas CMS (Holdings), contractwr â throsiant o £5.3 miliwn a 42 o weithwyr, ei enwebu gan Melin Homes oherwydd eu parodrwydd i arwain y ffordd, gan leisio pryderon a chynnig atebion i broblemau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig yn y sector. Mae'r cwmni'n gwneud gwaith ymchwil i faterion fel holiaduron cyn cymhwyso, rhannu'r arferion gorau a chefnogi unigolion a chwmnïau i ennill cymwysterau ac achrediadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Mae hefyd wedi gweithredu fel brocer i ddod â nifer o fusnesau lleol at ei gilydd ar fframwaith perfformiad ynni Arbed, gan eu galluogi i gydweithio a rhoi bid llwyddiannus am gytundebau a fyddai fel arfer wedi mynd i gontractwyr mwy o'r tu allan i Gymru. Mae hyn wedi cael effaith bositif ar gymunedau lleol o safbwynt cynyddu gwerth y bunt Gymreig – fel y mesurodd Melin Homes drwy ddefnyddio offeryn mesur mantais cymunedol Llywodraeth Cymru.

TCMS

## Pro Steel Engineering
### (Enillydd y categori 51-250 o weithwyr)

Mae cryfder diwydiant adeiladu Cymru yn dibynnu ar sgiliau ei bobl ac mae ProSteel Engineering wedi dangos ei fod yn barotach na'r rhelyw i fuddsoddi yn natblygiad ei staff.





Wedi ei leoli yn Sir Fynwy gyda throsiant o £3.6 miliwn mae'r cwmni yn cynnig gwasanaethau rheoli prosiect ac adeiladu proffesiynol. Mae wedi buddsoddi dros £50,000 mewn rhaglenni i symbylu staff, gwella sgiliau a rhoi profiad positif i gwsmeriaid. Mae'r cwmni'n annog trafodaeth agored gyda'r tîm ehangach i helpu i wella arferion gweithio ac mae wedi creu rhaglen ddatblygu gyrfa i isgontractwyr. Daeth yr  ymdrechion hyn i ffrwyth yn 2014 pan grëodd y cwmni fwy na 100 o swyddi newydd yn sgîl contract i gryfhau gwaith dur Parc Olympaidd y Frenhines Elisabeth yn Llundain. Mae ymrwymiad ProSteel i'r safonau uchaf o ran gwaith, sgiliau a iechyd a diogelwch ar ei safleoedd wedi ennill i'r cwmni nifer o gontractau amlwg drwy wledydd Prydain. Mae'r cwmni wedi tyfu'n gyflym a llynedd fe symudodd i swyddfeydd mwy gyda warws benodol ar gyfer cynhyrchu deunyddiau dur.

pro steel engineering

# Gwobr Cynaliadwyedd - Ein Hetifeddiaeth

Gwobr wedi'i noddi gan

bre

Beirniaid: John Edwards, Colin King, Rob Pannell

## Ysgol Ffwrnes - WRW Construction Ltd

Mae'r ysgol Gymraeg newydd yma yn Llanelli, sy'n cyfuno addysg feithrin a chynradd, yn rhan o Raglen Foderneiddio Addysg Cyngor Sir Gâr ac yn cael ei chydnabod fel un o ysgolion mwyaf arloesol Cymru yn barod.



"Yn ystod y cyfnod dylunio defnyddiodd WRW system ar y we o'r enw Box i storio a rhannu gwybodaeth"

Mae ei nodweddion amgylcheddol-gyfeillgar wedi ennill statws Eithriadol BREEAM – yr ysgol gynradd gyntaf i wneud hynny – a cafodd ei chynllunio i weithio'n ddi-garbon. Nododd y beirniaid ymrwymiad 'angerddol' y contractwr, WRW Construction, i weithio mewn ffordd holistig i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon – gyda llawer o help gan gleient gwybodus oedd yn cydweithredu'n dda. Mae nodweddion fel amgylcheddau dysgu yn yr awyr agored yn annog ymddygiad eco-gyfeillgar ymhlith y plant tra mae mesurau fel gwyntyllu naturiol, cysgodi rhag haul, casglu dŵr glaw, paneli ffotofoltäig a phympiau gwres sy'n defnyddio aer i gyd yn cyfrannu at wella effeithlonrwydd ynni a chreu amgylchedd cyfforddus y tu mewn.

Ond yr hyn wnaeth yr argraff fwyaf oedd rheolaeth y prosiect a chyfraniad y rhanddeiliaid a'r gymuned. Cafodd pobl leol oedd yn amheus ar y dechrau eu perswadio drwy weithio'n agos gyda nhw ac arddel arferion da ar y safle. Manteision eraill oedd 21,000 awr o waith gyda thâl i bobl leol ddi-waith a 11,480 awr o waith i brentisiaid, gweithwyr dan hyfforddiant a gweithwyr newydd. Trefnwyd bod y disgyblion, yr athrawon a'r llywodraethwyr yn cael dod i'r safle'n rheolaidd i wneud yn siŵr fod y prosiect yn ateb eu hanghenion. Roedd cyfathrebu effeithiol yn sylfaenol i'r gwaith tîm a'r berthynas weithio dda rhwng aelodau'r tîm.

Yn ystod y cyfnod dylunio defnyddiodd WRW system ar y we o'r enw Box i storio a rhannu gwybodaeth, a weithiodd mor dda nes i un beirniad deimlo ei fod yn rhagflaenydd i BIM. Dywedodd y beirniaid y gallai'r model rheoli gael ei efelychu gan y diwydiant drwyddo draw.



Austin-Smith:Lord   CB3   FAITHFUL+GOULD   wrw   saba   Sir Gâr   Melin



# Gwobr am Werth

Gwobr wedi'i noddi gan

CIOB
THE CHARTERED INSTITUTE OF BUILDING

Beirniaid: Mike Edmonds, Simon Lander, Geoff Ogden

## Deuoli'r A465 o Frynmawr i Dredegar - Carillion Civil Engineering

Mae ardal Blaenau'r Cymoedd yn ardal o amddifadedd difrifol ers blynyddoedd a dyma'r ardal adfywio strategol gyntaf yng Nghymru. Mae'n dioddef o diffyg gweithgarwch economaidd, swyddi gwael, delwedd anffafriol a phrinder cludiant a gwasanaethau telathrebu.





"Mae'r prosiect pum mlynedd sy'n cael ei weithredu gan Carillion yn dod i'w derfyn a bydd yn cynyddu gwerth i Gymru"

Fe welodd Llywodraeth Cymru y byddai gwella darn wyth cilomedr o hyd o'r A465 ym Mlaenau Gwent yn gyfle da i adfywio'r ardal. Mae'r prosiect pum mlynedd sy'n cael ei weithredu gan Carillion yn dod i'w derfyn a bydd yn cynyddu gwerth i Gymru, nid yn unig drwy gynnig seilwaith modern o'r radd flaenaf ond hefyd drwy roi'r budd economaidd mwyaf posib i'r economi leol ac i weddill Cymru. Mae'r prosiect wedi derbyn £82 miliwn gan Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop, diolch i'r ffaith fod y tîm wedi llwyddo i ddangos yr effaith bositif a gaiff ar y gymuned leol. Roedd llawer o'r effaith yma'n bosib drwy gynnwys y contractwr yn gynnar yn y broses a thrwy ddewis cytundeb cost targed cydweithredol NEC, oedd yn golygu fod digon o amser i gynllunio ac ymgynghori gyda'r gymuned leol.

Teimlai'r beirniaid fod y contractwr wedi mynd tu hwnt i'r gofyn o ran ychwanegu gwerth, yn ystod y gwaith adeiladu ac o ran yr etifeddiaeth i Flaenau Gwent. Roedd yr amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn uchel. Er enghraifft, mae 3,500 o bobl ifanc wedi cymryd rhan drwy 65 o weithgareddau gyda 37 o ddarparwyr addysg. Mae'r prosiect wedi creu 25,000 o wythnosau o waith i Gymru ac wedi buddsoddi £75 miliwn mewn busnesau Cymreig; roedd 45 y cant o'r gwariant ym Mlaenau'r Cymoedd. Drwy brosesu deunyddiau ar y safle ac ailgylchu deunyddiau, rhwystrwyd dros 99 y cant o wastraff y safle rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Amcangyfrifir fod y prosiect wedi rhoi hwb o £180 miliwn i economi Cymru. Daeth yr Academi Sgiliau Adeiladu Cenedlaethol (NSAfC) i Gymru am y tro cyntaf yn sgîl y prosiect, ac mae'r tîm wedi rhannu'r hyn mae wedi'i ddysgu gyda'r diwydiant fel y dangoswyd gan y clystyrau o ddosbarthiadau busnes NSAfC.

ARUP   carillion   TACP   WALTERS

# Gwobr Iechyd a Diogelwch

Beirniaid: Cath Bone, Chris Gray, Stella Saunders

Gwobr wedi'i noddi gan

ASSOCIATION FOR PROJECT SAFETY

## Ysgol Fusnes Caerdydd - ISG

I ennill y wobr hon rhaid i'r sefydliad ddangos fod ei fesurau iechyd a diogelwch wedi rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol gan Reolau Adeiladwaith (Cynllunio a Rheolaeth) 2007.




Y nod o'r dechrau gyda'r prosiect £13.5 miliwn yma i godi Ysgol Fusnes newydd Prifysgol Caerdydd, dan oruchwyliaeth ISG, oedd cyrraedd safonau iechyd a diogelwch rhagorol ymysg y gweithlu a'r cyhoedd. Yn sylfaenol i'r gwaith o weithredu'r strategaeth iechyd a diogelwch roedd y gwaith tîm integredig a chydweithiol a sefydlwyd ar y safle. Ar ddechrau'r prosiect cynhaliwyd gweithdy i nodi meysydd lle gellid gwella a rhai oedd yn dangos yr arferion gorau. Yn sgîl hyn crëwyd siarter i'r prosiect a phenodwyd hyrwyddwyr i fod yn gyfrifol am feysydd penodol – gan gynnwys iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn golygu bod problemau penodol i'r safle yn cael eu gweld yn syth a'u datrys. Er enghraifft, roedd safle'r campws ynghanol y ddinas, ger llinell reilffordd, yn aml yn brysur. Gofalwyd am ddiogelwch cerddwyr yn ardal y brifysgol ac o'i chwmpas drwy fesurau fel penodi swyddog wrth y giât, creu trefniadau diogel i ddod i mewn i'r safle a chreu llwybrau diogel i gerddwyr i fyny tu allan i'r safle gyda ffensys a golau.

Datblygwyd ap iechyd a diogelwch dyfeisgar a gafodd ei ddosbarthu i'r gadwyn gyflenwi i helpu gyda rheoli teithio yn ddiogel, gan gynnwys dod â nwyddau i'r safle. Roedd gwybodaeth am iechyd a diogelwch a diweddariadau i fyfyrwyr a staff yn cael eu dangos ar sgrîn yn adeiladau cyfredol yr ysgol fusnes. Roedd sŵn yn cael ei fonitro mewn llefydd penodol ar ffiniau'r safle a chadwyd y llwch i lawr drwy ddefnyddio dŵr i gadw deunyddiau'n wlyb wrth eu torri



a gosod unedau sugno llwch ar offer. Gweithiodd staff y safle gyda'r elusen ganser leol, Tenovus, i gynnal sesiynau sgrinio iechyd a diogelwch ar y safle i'r gweithlu a'r gymuned leol. 'Dyw hi ddim yn syndod fod y safle wedi derbyn gwobr teilyngdod gan y Cyngor Diogelwch Rhyngwladol. Cymerwyd camau rhagweithiol i rannu gwersi ac arferion da ac mae'r ap iechyd a diogelwch wedi ei ddefnyddio ar gynlluniau eraill yn barod.

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD · boyesrees architects · isg



# Gwobr Arloesi

Beirniaid: Mark Adams, Ioan Prydderch, Pierre Wassenaar

Gwobr wedi'i noddi gan

sewscap

## Adnewyddu Pont Erwyd dros Afon Gwy - Dawnus Construction Holdings Ltd

Roedd cynnwys y contractwr yn gynnar yn y broses a chydweithio ar y prosiect peirianyddol heriol hwn yn hollbwysig wrth geisio dod o hyd i ateb ymarferol a dyfeisgar i broblem amgylcheddol.



Y dasg oedd adnewyddu pont dros Afon Gwy, ardal amgylcheddol sensitif, tra'n cadw'r bont ar agor i bobl oedd yn cerdded neu ar feic. Roedd y cleient, Cyngor Sir Powys a Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi bwriadu defnyddio proses hydrodemolition i dynnu'r hen goncrit oddi ar y bont, ond roedd Dawnus, y prif gontractwr, yn credu y byddai hynny'n peri risg amgylcheddol difrifol.

Mae dymchwel drwy chwistrellu dŵr yn creu llawer iawn o ddŵr gwastraff â gwaddod ynddo a theimlai Dawnus y byddai'n llygru'r afon yn ddirfawr. Yn ystod y cyfnod dylunio cynnar yma, arweiniodd Dawnus broses o daflu syniadau i dîm y prosiect ac fe wnaethon nhw feddwl am ateb unigryw – torri'r trawstiau a'r colofnau gyda weiren ddiamwnd yn flociau un metr ciwbig, yna mynd â nhw o'r safle i'w gwaredu. Er nad yw torri â weiren yn ddull newydd, mae'r broses o gludo'r blociau – eu llithro ar blatfform dros dro i ymyl llwyfan y bont, yna'u codi gyda winsh – yn un dyfeisgar. Drwy wneud



"Roedd hi'n glir fod y cydweithio gafwyd gan y gadwyn gyflenwi gyfan wedi cyfrannu at y datrysiad a dod ag arbenigedd a phrofiad dylunwyr, ymgynghorwyr ac isgontractwyr at ei gilydd."

hyn roedd llai o berygl o lygru a golygai weithio am gyfnod llawer byrrach uwch ben yr afon. Codwyd strwythurau dros dro, wedi eu haddasu'n arbennig, i gynnal y bont yn ystod y broses ddymchwel ac i roi'r mynediad gofynnol.

Credai'r beirniaid fod hwn yn ddull gwirioneddol arloesol o daclo problem amgylcheddol sensitif. Roedd hi'n glir fod y cydweithio gafwyd gan y gadwyn gyflenwi gyfan wedi cyfrannu at y datrysiad a dod ag arbenigedd a phrofiad dylunwyr, ymgynghorwyr ac isgontractwyr at ei gilydd. Trosglwyddwyd y prosiect yn ôl i'r cleient 18 wythnos yn gynnar heb unrhyw ddiffygion, dim amser wedi'i golli na niweidiau amgylcheddol. Nododd y beirniaid y gellir defnyddio'r datrysiad hwn ar brosiectau eraill lle mae angen tynnu a gwaredu concrid.

CASS HAYWARD · dawnus · mabey hire · Powys

# Cyflawnydd Ifanc y Flwyddyn

Gwobr wedi'i noddi gan

Beirniaid: Andrew Gibson, Paul Lavelle, Ffion Lanchbury

## Ester Coma Bassas - Ysgol Penseiri Cymru

Cynorthwyydd ymchwil yn Ysgol Bensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd yw Ester ac mae wedi datblygu set o sgiliau trawiadol sy'n cael eu hamlygu yn y gwaith o ddylunio ac adeiladu tŷ arddangos Solcer.



"Mae Ester yn rhywun sy'n gallu creu newid mewn sector sy'n gallu bod yn un ceidwadol. Mae ei brwdfrydedd yn heintus ac mae'r carisma ganddi i gario pobl eraill gyda hi i'r dyfodol"



Tŷ fforddiadwy sy'n defnyddio lefelau isel iawn o ynni ydy hwn gyda thechnoleg carbon isel yn rhan annatod o strwythur yr adeilad yn hytrach nag wedi ei ychwanegu wedyn, yn y ffordd arferol.

Y nod yw dangos nad yw sicrhau fod ynni adnewyddadwy yn rhan annatod o adeilad bob amser yn effeithio ar gost neu berfformiad. Fe wnaeth brwdfrydedd di-ben-draw Ester, ei gwybodaeth dechnegol a'i gallu i ysbrydoli a hybu eraill ddal sylw'r beirniaid. Yn 28 oed mae ganddi sgiliau o'r radd flaenaf mewn sawl disgyblaeth; mae hi yr un mor gartrefol yn datblygu modelau cyfrifiadurol sy'n mesur perfformiad thermal ag y mae yn dylunio deunyddiau arbenigol i gladio waliau neu reoli pobl o ddydd i ddydd. Dydi hi ddim yn cael ei thaflu os yw pethau'n mynd o chwith ond yn dangos parodrwydd clir i feddwl y tu allan i'r bocs wrth wynebu problemau ac roedd y beirniaid wrth eu bodd gyda'i hagwedd bositif. Gall ymdopi gydag ymddygiad anodd ar safle mewn ffordd broffesiynol a synhwyrol ac mae'n ddiplomat galluog pan fo angen sicrhau perthynas weithio lefn.

Peth arall wnaeth argraff ar y beirniaid oedd ei gwybodaeth fanwl am y prosiect a'i dealltwriaeth o beth y gallai ei chanlyniadau hi ei olygu i gynaladwyedd a'r diwydiant adeiladau ehangach. Does dim dwywaith am ei hymrwymiad i berfformiad amgylcheddol; er enghraifft, mae wedi datblygu model cyfrifiadurol i archwilio agweddau ar ddylunio a thechnoleg sy'n cyflawni targedau llym llywodraeth y Deyrnas Unedig ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ond, yn bennaf oll, teimlai'r beirniaid fod Ester yn rhywun sy'n gallu creu newid mewn sector sy'n gallu bod yn un ceidwadol. Mae ei brwdfrydedd yn heintus ac mae'r carisma ganddi i gario pobl eraill gyda hi i'r dyfodol.



# Gwobr Cyflawnwr

Gwobr wedi'i noddi gan

## Martin Nicholls - Dinas a Sir Abertawe

Mae Martin Nicholls, Prif Swyddog Gweithredu Dinas a Sir Abertawe, wedi bod ar flaen y gad yn y mudiad arferion gorau yng Nghymru am flynyddoedd lawer fel ffigwr amlwg yng Nghlwb Arfer Gorau De Orllewin Cymru ac o fewn tîm Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol Abertawe.



Sylweddolodd Martin a'i dîm fod yn rhaid gweithredu i sicrhau fod yna gyflenwad cynaliadwy o staff crefftus ar gael i gyflwyno eu gwasanaethau. Gweithiodd y tîm yn agos gydag ysgolion a'r gwasanaeth gyrfaoedd i helpu disgyblion ysgol i ddeall rôl yr adran a'r cyfleoedd gyrfa oedd ar gael. Fe wnaeth y rhaglen addysg byd gwaith, er enghraifft, alluogi myfyrwyr i ddod i weithio i'r sefydliad am ddiwrnod yr wythnos am dros 30 wythnos er mwyn cael profiad o dasgau 'go iawn' yn y byd gwaith.

Mae hyn yn nodweddiadol o ymroddiad Martin a'i gred yn yr hyn y gall y maes adeiladu ei wneud – nid o ran codi adeiladau yn unig, ond o ran y cymunedau mae'r diwydiant yn eu gwasanaethu ac yn cael effaith arnynt. Bydd unrhyw un sydd wedi gweitho gyda Martin yn gwybod am ei frwdfrydedd dros weithio mewn partneriaeth a'i bwyslais ar dimau integredig – a'r ffocws bob amser ar le holistig y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Dyna pam mae ganddo enw yn ne orllewin Cymru fel rhywun sy'n gallu cael gafael ar y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol a dylanwadu arnyn nhw.

Mae ei lwyddiant gyda'i dîm yn dyddio nôl i 2007 ac yn sefyll allan fel enghraifft dda o arfer da yn y sector cyhoeddus. Cafodd llwyddiant y tîm yn creu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff ac ymgysylltu â phobl ifanc ei bwysleisio yn 2011 pan enillodd y Cyngor wobrau Arweinyddiaeth Ragorol mewn Adeiladu a Datblygu Pobl drwy Gymru a thrwy wledydd Prydain.

"Gweithiodd y tîm yn agos gydag ysgolion a'r gwasanaeth gyrfaoedd i helpu disgyblion ysgol i ddeall rôl yr adran a'r cyfleoedd gyrfa oedd ar gael."




Mae wedi cefnogi mentrau rhanbarthol yn gyson gydag un llygad ar y darlun cenedlaethol yr un pryd. Yn ddiweddar fe wnaeth gyfraniad sylweddol i adroddiad "Dim Troi Nôl / No Turning Back" CEW cyn mynd ymlaen i gadeirio Grŵp Llywio Caffael Gwaith Adeiladu Cymru a gafodd y dasg gan y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, o weithred argymhellion yr adroddiad. Mae hyn yn nodweddiadol o ymroddiad Martin wrth iddo barhau i gefnogi nifer o Brosiectau Arddangos ac Enghreifftiol, arwain Dinas a Sir Abertawe a chyfrannu at CLAW a'r Gymdeithas dros Ragoriaeth yn y Sector Cyhoeddus (APSE).

# Cleient y Flwyddyn

Gwobr wedi'i noddi gan KIER

Beirniaid: David Benson, Tony Norris, Rhodri-Gwynn Jones

## Dinas a Sir Abertawe

Beth sy'n gwneud cleient da? Arweiniad clir a chyson ac ymrwymiad i egwyddorion craidd Rhagoriaeth mewn Adeiladu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Dinas a Sir Abertawe wedi gweithio'n galed i drawsnewid ei ddiwylliant caffael traddodiadol, gwrthwynebol, i broses o gydweithio sy'n fwy agored ac wedi ei seilio ar werth.





Llwyddodd y cyngor i gipio gwobr Cleient y Flwyddyn eleni am ei fod wedi dangos arweiniad wrth gaffael ysgolion newydd fel rhan o'r raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae un prosiect yn arbennig, ysgol gyfun newydd Treforys, yn dangos ymrwymiad y cyngor tuag at arferion positif fel sicrhau cyfraniad cynnar y contractwr, ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a gweithio fel tîm integredig. Deallai Abertawe o'r dechrau 'nad adeiladau yn unig' oedd yn bwysig; roedd yn ymwneud â chyrhaeddiad addysgol, codi safonau a chreu canolfan sy'n esiampl ddisglair i'r gymuned o'i chwmpas.

Roedd cynrychiolydd y cyngor ar dîm y prosiect yn sicrhau fod y rhai a fyddai'n defnyddio'r adeilad yn rhan annatod o'r broses ddylunio ac adeiladu, a chafodd y rhanddeiliaid eu cynnwys ym mhob gweithgarwch. Roedd yr

### "Roedd yr holl elfennau dylunio wedi'u cysylltu gyda thargedau go iawn yr ysgol ar gyfer canlyniadau addysgol ym mhob un o feysydd y cwricwlwm"

holl elfennau dylunio wedi'u cysylltu gyda thargedau go iawn yr ysgol ar gyfer canlyniadau addysgol ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Drwy gydweithio'n agos fe wnaed yn siŵr fod tîm integredig clos y prosiect yn rhannu gweledigaeth ac amcanion y cyngor. Dangosodd Abertawe hefyd ei barodrwydd i arloesi fel y gwnaeth wrth redeg y cynllun peilot Cyfrifon Banc Prosiectau. Mae'r canlyniadau i'w gweld drostyn eu hunain: roedd Treforys ar restr fer Prosiect y Flwyddyn a'r wobr am Integreiddio. Ond nid dim ond un prosiect rhagorol sy'n cael ei ystyried yma; mae'r cyngor wedi annog cynnwys y contractwr yn gynnar yn yr broses ers blynyddoedd lawer. Mae'n deall pa mor bwysig yw meithrin perthynas hir dymor heb gadw contractwyr newydd allan. Ac nid yw am ddechrau llaesu dwylo chwaith:

'Mae'n hanfodol ein bod ni'n hybu arloesedd a llwyddiant ac yn parhau i ddysgu fel sefydliad ac fel unigolion os ydyn ni am barhau i ddatblygu diwylliant o gydweithio,' meddai'r cyngor. 'Gobeithio y bydd ein hagwedd agored a thryloyw yn ein gwneud yn gleient mae'r contractwyr eisiau gweithio iddo'.

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe



# Gwobr Arweinyddiaeth a Datblygu Pobl

Gwobr wedi'i noddi gan ARUP

Beirniaid: David Benson, Tony Norris, Rhodri-Gwynn Jones

## CYFLE Building Skills Ltd

Cafodd y cynllun Rhannu Prentisiaeth hwn ei greu mewn ymateb i'r galw yn y diwydiant adeiladu am recriwtio pobl ifanc dalentog. Cafodd ei lansio gan CITB a chynllun Rhannu Prentisiaeth Rhanbarthol De Orllewin Cymru ac mae'n annog ac yn ysbrydoli oedolion ifanc i chwilio am waith cynaliadwy tra'n helpu hefyd i ddiogelu dyfodol y diwydiant.




Mae'r cynllun yn ymgysylltu'n egnïol gydag ysgolion, cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gymuned ac chydweithio gyda mentrau eraill i ddod o hyd i garfan eang o bobl sydd â'r potensial i gael eu hyfforddi. Roedd y beirniaid wedi eu taro'n enwedig gan ba mor ddygn oedd y cynllun yn targedu grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli, fel merched, pobl ifanc gydag anableddau ac aelodau o'r gymuned deithiol leol, a allai fynd ymlaen i ddymchwel rhwystrau cymdeithasol a dod yn arweinwyr. Mae angerdd, arweinyddiaeth gref ar draws y sectorau a strategaeth glir wedi bod yn allweddol i lwyddiant y cynllun; mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, colegau

### "Mae'r ffordd yma o weithio wedi ei disgrifio fel 'y profiad eithaf o ddysgu yn y gweithle'."

rhanbarthol, grwpiau hyfforddi annibynnol, contractwyr a busnesau bach a chanolig i ddatblygu rhaglenni hyfforddi a chynnig lleoliadau.

Ar hyn o bryd mae dros 140 o gyd brentisiaethau wedi eu llenwi mewn saith crefft. Mae'r bobl ifanc hyn yn gweithio'n gylchol gyda nifer o wahanol gyflogwyr, gan gael profiad o amrywiaeth o weithleoedd a helpu cyflogwyr sydd wedi ei chael yn anodd i gynnig lleoliadau oherwydd ansicrwydd yn eu llif gwaith. Mae'r ffordd yma o weithio wedi ei disgrifio fel 'y profiad eithaf o ddysgu yn y gweithle'. Hyd yma mae 90 y cant o'r prentisiaethau wedi aros o fewn y diwydiant a nifer wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain neu fynd ymlaen i addysg uwch. Eisoes mae'r model yn ennyn diddordeb mawr mewn rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig. 'Mae'n brosiect gwych sydd eto i gyrraedd ei lawn botensial, sy'n gynhyrfus,' meddai un beirniad, a ychwanegodd y gallai fod yn esiampl i ranbarthau eraill ei dilyn.



CCTAL · CIBDG · citb Cymru Wales · Cyfle · Swansea Bay

# Prosiect y Flwyddyn

Gwobr wedi'i noddi gan

Beirniaid: Mark Adams, Chris Gray, Vince Hanly, Andy Sutton

## Cymuned Ddysgu Penarth, Leadbitter - cwmni Bouygues UK

Cafodd pum safle ysgol eu cyfuno i greu un campws cymunedol gan Gyngor Sir Bro Morgannwg – y prosiect mwyaf erioed iddyn nhw ei gynnal.

"Gwariwyd cymaint â £32 miliwn o'r gyllideb o £39 miliwn yng Nghymru, a chyflogwyd 1,422 o bobl o fewn radiws o 25 milltir"






Mae'r safle'n cynnwys ysgol uwchradd prif ffrwd newydd sbon ac ysgol anghenion addysgol arbennig gydag adeilad seibiant a gynlluniwyd i fod yn fwy hyblyg i'r athrawon a'r disgyblion, gyda chefnogaeth a gofal yn cael ei gynnig mewn ffordd aml-asiantaethol. O'r dechrau, roedd y tîm yn benderfynol y byddai'r prosiect yn dangos rhagoriaeth ym mhob ffordd. Penderfynodd y beirniaid ei fod wedi rhagori ym mhob maes, gyda chyfranogiad y gymuned a gweithio gyda'r ysgol yn sefyll allan fel cyflawniadau arbennig. Mae pennaeth yr ysgol anghenion arbennig newydd wedi cadarnhau eu bod wedi gwrando ar yr ysgol fel partner cyfartal a bod hynny wedi arwain at gynnwys cyfleusterau trawiadol fel ystafelloedd cefnogi therapi gyda'r offer synhwyraidd mwyaf diweddar. Mae'r gymuned yn cael defnyddio cyfleusterau fel y neuaddau chwaraeon a'r llefydd perfformio yn y ddwy ysgol newydd. Gwariwyd cymaint â £32 miliwn o'r gyllideb o £39 miliwn yng Nghymru, a chyflogwyd 1,422 o bobl o fewn radiws o 25 milltir. Drwy dargedu'r recriwtio a'r hyfforddi gosodwyd safon uchel, gan lwyddo i gael 100 o wythnosau i weithwyr newydd am bob £1 miliwn a wariwyd.

Mae'r adeiladau newydd, sydd wedi eu graddio'n Rhagorol gan BREEAM, yn cynnwys y nodweddion diweddaraf ar gyfer cynaliadwyedd, o ddylunio adeilad goddefol a más thermal agored i eneraduron dŵr poeth solar a systemau gwres a phŵer cyfun. Defnyddiwyd dulliau gweithio fel deunydd yn gyntaf (fabric first) a microgynhyrchu wrth adeiladu ar y safle er mwyn lleihau allyriadau carbon yn y dyfodol. Cwblhawyd y rhaglen ar amser ac o fewn y gyllideb, gan ganiatáu i'r broses gomisiynu ddigwydd o fewn adeilad gorffenedig. Does dim syndod fod un beirniad wedi dod i'r casgliad fod y prosiect yn 'rhoi neges am yr hyn y gellir ei wneud.'



# Canmoliaeth uchel

## Gwobr Arloesi - Ysgol Gymunedol Aberdâr (Sobell Redevelopment)



Mae'r adeilad newydd yma'n rhan o ailddatblygiad gwerth £50 miliwn Cyngor Rhondda Cynon Taf i wasanaethau addysg, hamdden a'r gymuned yn Aberdâr. Credai'r beirniaid ei fod yn dangos yn dda fanteision gweithgynhyrchu oddi ar y safle a dulliau modern eraill o adeiladu, a bod gwersi pendant yma i'w dysgu gan y diwydiant ehangach.

## Gwobr Cynaliadwyedd - Ein Etifeddiaeth - Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin



Y ganolfan ymwelwyr hon ym Mharc Cenedlaethol Eryri yw'r gyntaf yng ngwledydd Prydain i'w chodi o bren lleol gradd isel a Brettsapel wedi'i weithgynhyrchu. Roedd hwn yn brosiect arloesol oedd yn creu'r deunyddiau oddi ar y safle er mwyn cael cyn lleied o effaith â phosib ar yr amgylchedd, bod yn fwy cynhyrchiol a gwneud y gwaith yn gynt tra'n parchu'r tirwedd prydferth o'i gwmpas yr un pryd.

## Prosiect y Flwyddyn - Ysgol Ffwrnes, Llanelli



Yr ysgol arloesol hon yw'r ysgol gynradd gyntaf yng Nghymru i ennill safon Eithriadol BREEAM. Nododd y beirniaid yn benodol ymrwymiad 'angerddol' y contractwr, WRW Construction, i weithio mewn ffordd holistig i fod yn gynaliadwy. Yn help garw i hyn roedd gwaith tîm rhagorol a chyfraniad brwdfrydig y gymuned leol.

# Prif noddwyr

## Noddwyr

# EFOD

## Elusen Enwebedig Gwobrau CEW 2015







Cwmni elusennol cofrestredig yw EFOD sydd wedi hen ennill ei blwyf bellach ers ei sefydlu yng Nghaerdydd yn 2000. Mae'n herio gweithwyr proffesiynol ifanc y diwydiant adeiladu i greu timau a derbyn her i ehangu eu hyfforddiant drwy ddylunio ac adeiladu cynlluniau ar gyfer rhai o bentrefi tlotaf Affrica. Mae gan yr elusen chwech grŵp drwy wledydd Prydain ar hyn o bryd a thros 200 o aelodau gweithredol.

EFOD Caerdydd yw'r grŵp gweriddiol, gyda record gynhwysfawr o adeiladu llosgyddion i ysbytai, melinau, canolfannau meddygol, ysgolion sy'n cynnig hyfforddiant galwedigaethol ac adfer tyllau dŵr. Mae gennym ddau gynllun ar waith ar hyn o bryd:

**Adfer Twll Dŵr Malera, Uganda - prosiect i adeiladu pwmp solar a thanciau storio dŵr i dynnu dŵr o dwll turio cynhyrchiol yn ddwfn yng nghefn gwlad Uganda. Bydd yn rhoi cyflenwad dŵr dibynadwy i gymuned o dros 1000 o bobl ac yn creu llecyn dyfrio i wartheg mewn ardal o dros 300 cilomedr sgwâr. Dinistriwyd y cyfleusterau gweriddiol yn ystod gwrthryfel y 1980au. Mae astudiaethau a gwaith pellach gan dîm o 20 wedi profi fod y cynllun yn un hyfyw ac mae sylfaeni concrid a chafnau bwydo wedi eu hadeiladu. Mae'r prosiect wrthi'n codi £20,000 er mwyn gallu gosod 4 tanc storio, 9 panel solar a thŷ pwmpio.**

**Pont Grog Abesu, Chongwe, Zambia – codi pont droed â rhychwant clir o 78m ar draws sianel ddŵr ar gyfer sefydliad cydweithredol i weddwon. Y nod ydy lleihau'r 20 o farwolaethau gafwyd yma yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae archwiliadau'r safle wedi eu cwblhau a cham nesa'r prosiect uchelgeisiol hwn yw creu dyluniadau manwl. Mae Abesu, elusen o Gaerdydd, yn ein helpu i godi'r £100,000 sydd ei angen yn weddill.**

Mae EFOD yn ddiolchgar i Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru am barhau â'u cefnogaeth ac i bawb sy'n cyfrannu'n garedig i'w prosiectau.

www.efod.co.uk @efod.co.uk